| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **15 Mai 2009** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

**1.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o honiadau a dderbyniwyd drwy law'r Ombwdsmon ers i mi adrodd ar y sefyllfa y tro diwethaf.

## 2. Crynodeb o'r Honiadau

### 2.1 Cyfeirnod Ombwdsmon 200801843

Cyhuddir aelod o gyngor cymuned o ysgrifennu llythyr maleisus, difenwol, gwahaniaethol a ffeithiol anghywir at weinidog o Lywodraeth y Cynulliad. Roedd y llythyr yn benodol yn cyfeirio at fywyd personol yr achwynydd.

Adroddais ar yr honiad yma yn fy adroddiad diwethaf, gan egluro fod yr Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio i'r gŵyn. Erbyn hyn mae wedi cwblhau ei ymchwiliad ac wedi dod i'r casgliad fod tystiolaeth o doriadau posib o'r côd ymddygiad, sydd o natur ddifrifol. O ganlyniad, mae 'nawr wedi cyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru am benderfyniad.

### 2.2 Cyfeirnod Ombwdsmon 200802179

Mae clec cyngor tref wedi gwneud cwyn am ymddygiad aelod o'r cyngor tuag ati.

Adroddais ar yr honiad yma yn fy adroddiad diwethaf ond nid yw'r sefyllfa wedi newid, sef nad yw'r Ombwdsmon wedi penderfynu os yw am ymchwilio i'r gŵyn.

### 2.3 Cyfeirnod Ombwdsmon 200802180

Mae cadeirydd cyngor tref wedi cwyno am ymddygiad aelod a'i gyhuddo o ddiffyg parch a bwlio.

Adroddais ar yr honiad yma yn fy adroddiad diwethaf ond nid yw'r sefyllfa wedi newid, sef nad yw'r Ombwdsmon wedi penderfynu os yw am ymchwilio i'r gŵyn.

2.4 **Cyfeirnod Ombwdsmon 200802366**

Sylwedd yr honiad oedd bod cynghorydd wedi anfon e-bost at yr achwynydd gan ddefnyddio gair anweddus wrth gyfeirio ato. Roedd yr achwynydd yn honni fod y cynghorydd wedi torri sawl darpariaeth o'r cod ymddygiad yn cynnwys methiant i ddangos parch tuag at eraill a dwyn anfri i'w swydd neu awdurdod. Roedd yr aelod wedi ymddiheuro ac wedi egluro mai drwy gamgymeriad yr anfonwyd yr e-bost.

Roedd yr Ombwdsmon yn derbyn y gallai anfon e-bost gyda chyfeiriad amhriodol dorri'r côd. Serch hynny roedd o'r farn nad oedd y toriad(au) potensial hyn o'r cod ymddygiad yn ddigon difrifol i ddenu sancsiwn gan naill ai Bwyllgor Safonau Gwynedd neu gan Banel Dyfarnu Cymru. Roedd y gred hon yn seiliedig ar brofiad swyddfa'r Ombwdsmon, dros nifer o flynyddoedd, o gyfeirio materion am ddyfarniad. Fel canlyniad penderfynwyd peidio ymchwilio i'r gŵyn.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.